



10.12.20

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Diolch o Galon

Wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y Nadolig, yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi fel Rhieni / Gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus yn ystod y cyfnod yma o bryder ac ansicrwydd i bawb. Rydym yn parhau i drosglwyddo unrhyw arweiniad BCBC cyn gynted rydyn ni yn ei dderbyn fel ysgol ac yn gwerthfawrogi eich amynedd parhaus gyda hyn. Mae eich plant wedi bod yn glod i chi y tymor hwn; diolch i'n disgyblion gwych, am eu hymgylltiad a'u hagwedd gadarnhaol. Diolch hefyd i'n Corff Llywodraethol a'n tîm staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i ddarpariaeth ar gyfer y rhai sy'n ynysu o'r ysgol, yn ogystal â'r ymdrechion parhaus y tu ôl i'r llenni wrth ddiogelu, lles, amddiffyn plant, lechyd a Diogelwch a recriwtio.

Newidiadau Staff

Llongyfarchiadau cynnes i Miss Sioned Hiscocks, Mrs Rees bellach, ar ddatliad ei phriodas.

Ein dymuniadau gorau i Mrs Sonia Gatt, a fydd ar ôl 22 mlynedd yma ym Mro Ogorw yn ein gadael ar ddiwedd y tymor i fwynhau ymddeoliad haeddiannol iawn. Mae Mrs Gatt wedi cyfrannu at fywyd academiaidd ac allgyrsiol yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd a byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr.

Rydym yn croesawu Miss Elizabeth Evans yn ôl, a fydd yn dysgu 2G tan ddiwedd Tymor yr Haf. Yn flaenorol, mae Miss Evans wedi bod yn aelod allweddol o'n tîm ymyraethau ysgol ac yn dychwelyd atom ar ôl cwblhau ei chymhwyster addysgu.

Rydym hefyd yn croesawu Miss Emili Greenacre a Miss Cheryl Davies i dîm Meithrin.

Cyfathrebu Ysgol / Cartref

Yn dilyn treial llwyddiannus Blwyddyn 6 / Blwyddyn 5 yn gynharach y tymor hwn, y mis hwn rydym wedi cyflwyno'r App Rhiant SIMS i bob rhiant / gofalwr ledled yr ysgol. Mae'r App Rhiant yn cynnig mynediad ar unwaith i ofyn am addasiadau i ddisgyblion a data cyswllt a gedwir gan yr ysgol a mynediad i rieni / gofalwyr i bresenoldeb disgyblion, dyddiadau tymor a digwyddiadau dyddiadur ysgol. Anfonir pob neges trwy'r App Rhiant. Yn y dyfodol, bydd yr ap hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai adroddiadau ac amserlenni gweithgareddau allgyrsiol. Mae YGG Llangynwyd hefyd wedi lansio App Rhiant SIMS ac os oes gennych blant yn y ddwy ysgol, byddwch yn gallu mynedu data ar gyfer pob plentyn o'r un cyfrif.

Bydd cysylltiadau Blaenoriaeth 1 â Chyfrifoldeb Rhiant wedi derbyn e-bost i'w cyfeiriad e-bost cofrestredig gyda chôd gwahoddiad. Mae canllaw cymorth i rieni ar gael ar wefan yr ysgol. Os ydych yn dymuno i riant / gofalwr arall sydd â Chyfrifoldeb Rhiant dderbyn gwahoddiad i'r ap neu os oes angen cymorth arnoch, e-bostiwch swyddfa'r ysgol ar admin.broogwr@bridgend.gov.uk.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein gwasanaeth testun presennol ochr yn ochr â'r App Rhieni ar hyn o bryd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r ap newydd ac i ganiatáu amser i rieni / gofalwyr gofrestru.

Hysbysiadau Canlyniad Prawf Cadarnhaol

Sylwch y bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ddydd lau 17eg a dydd Gwener 18fed Rhagfyr a chynigir darpariaeth ar-lein i'r holl ddisgyblion. Rhaid e-bostio unrhyw ganlyniadau profion positif rhwng dydd Gwener 18fed Rhagfyr a dydd Mawrth 22ain Rhagfyr at admin.broogwr@bridgend.gov.uk er mwyn i ni allu prosesu rhain. Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost hwn at y diben hwn yn unig yn ystod yr amser hwn, gan fod yr ysgol ar gau. Bydd Track & Trace yn gweithredu unrhyw hysbysiadau canlyniadau positif yn ystod gweddill y gwyliau ysgol.

Rwy'n dymuno seibiant hapus a diogel i chi i gyd. Byddwn yn croesawu pob disgybl yn ôl i'r ysgol ddydd Llun Ionawr 4ydd 2021.

Nadolig Llawen a chofion cynnes

Mrs S Jayne

Pennaeth